Sesiwn 1: Pwysigrwydd Cyfathrebu

Ble mae cyfathrebu'n effeithiol?

- Cyfarfodydd cyswllt.
- Pan fo cynghorwyr yn aelodau o gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned.
- Mae cael swyddog penodol yn yr awdurdod unedol yn hwyluso cyfathrebu rhwng cynghorau.

Problemau cyfathrebu

- Mae cyfnodau ymgynghori yn anodd yn aml iawn i gyngor cymuned a thref bach, yn enwedig pan fyddant yn cael eu cynnal dros wyliau'r haf.
- Mae cynghorau bach yn aml iawn yn ei chael yn anodd anfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd awdurdodau unedol a phwyllgorau ardal.
- Mae'n anodd i awdurdodau unedol gyfathrebu'n gyflym ac yn gyson â'u cynghorau cymuned gan fod Cynghorau Tref a Chymuned yn amrywiol iawn.

Sut mae gwella cyfathrebu?

- Cyfnodau ymgynghori hwy, gan osgoi gwyliau'r haf lle bo'n bosibl.
- Cytuno ar amseroedd penodol i awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned ymateb i ohebiaeth ac ymgynghoriadau.
- Hyfforddiant ynghylch cod ymddygiad.
- Byddai cylchlythyron misol/chwarterol gan awdurdodau unedol yn rhoi'r diweddaraf i gynghorau yn helpu cynghorau bach sy'n methu anfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd.
- Dynodi swyddog penodol yn yr awdurdodau unedol lle bo'n bosibl i gynghorau cymuned a thref gysylltu ag ef.
- Mae angen i bob cyngor ddeall rolau'i gilydd. Gall diffyg dealltwriaeth arwain at amgylchedd gwaith aneffeithlon a drwgdybus.
- Gallai cynrychiolwyr awdurdodau unedol ddangos ymrwymiad i gynghorau cymuned a thref drwy fynd i'w cyfarfodydd lle bo'n bosibl.
- Gallai cynghorau cymuned a thref gyfrannu mwy at osod agenda'r cyfarfodydd cyswllt.
- Dylai fod cyfeiriad e-bost penodol gan bob cyngor cymuned a thref i alluogi'r awdurdodau unedol i gyfathrebu â nhw'n fwy effeithiol.

Sesiwn 2: Manteision y Siarter

Manteision siarter

- Bydd yn helpu cynghorau i ddeall rolau'i gilydd yn well a dod o hyd i ffyrdd effeithiol o gydweithio.
- Bydd yn gwneud pob cyngor yn gyfartal a bydd y bartneriaeth hon yn fwy cynhwysol a chefnogol.
- Bydd yn annog cynghorau cymuned, tref a bwrdeistref sirol i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin.
- Bydd yn galluogi cynghorau i rannu adnoddau fel TGCh, mynediad at hyfforddiant etc.
- Bydd yn helpu i osgoi trethiant dwbl.
- Drwy ymgynghori â chynghorau cymuned a thref ar siarterau, gall cynghorau bwrdeistref sirol ddangos eu bod yn ymgynghori'n llwyr â chymunedau cyn pennu blaenoriaethau.

Sut mae llunio siarter lwyddiannus a chynaliadwy

- Mae'n bwysig gwybod beth mae pob cyngor yn disgwyl o unrhyw siarter cyn ei pharatoi.
- Hwyluso cyswllt agored a rheolaidd rhwng cynghorau cymuned, tref a bwrdeistref sirol wrth baratoi siarter. Sicrhau yr ymgynghorir â chynghorwyr a swyddogion yn ystod y broses.
- Sefydlu gweithgor a all rheoli'r siarter a sicrhau ei chynnydd.
- Defnyddio'r siarter fodel i lywio trafodaethau a chytundebau.
- Llunio cynllun gweithredu i ddilyn y siarter er mwyn sicrhau bod modd gweld cynnydd yn rheolaidd. Sicrhau bod y siarter yn cael ei hadolygu bob blwyddyn/ar ddiwedd y tymor pedair blynedd.